Asesiadau terfynol

Dylai pob cyd-adolygiad ddarparu dyfarniadau ar berfformiad, sydd yn eglur, gyda digon o dystiolaeth ar eu cyfer, ac sydd wedi eu hystyried yn helaeth, y gellir eu deall a gweithredu arnynt gan ystod eang o fudd-ddeiliaid, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae gan yr holl fudd-ddeiliaid hyn ddisgwyliadau priodol fod y dyfarniadau terfynol yn gyson, wedi eu seilio ar ddadansoddiad cadarn o dystiolaeth, wedi eu profi yn rymus a'u dangos yn derfynol yn yr adroddiad a wneir i'r awdurdod lleol.

Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei chasglu a'i hasesu, mae proses gadarn o herio yn dilyn, o fewn y tîm cyd-adolygu a chan safonwyr profiadol cyn y rhennir y casgliadau gyda'r awdurdod lleol. Bwriad hyn yw sicrhau bod unrhyw ddyfarniadau:

- yn defnyddio ystod lawn o dystiolaeth ansoddol a meintiol;
- yn ganlyniad i ddefnyddio methodoleg y cyd-adolygiad yn gywir;
- wedi eu profi'n gadarn yn erbyn meini prawf sy'n wybyddus;
- yn fwriadol, yn deg, yn gyson, ar sail gwybodaeth ac yn ddiduedd.

Mae'r cyfarfod asesu terfynol yn elfen hanfodol yn y broses o ddadansoddi a sicrhau ansawdd. Yn syth ar ôl gwneud y gwaith maes, bydd y tîm cyd-adolygu yn parhau i archwilio'r dystiolaeth. Byddant wedyn yn cyfarfod gyda'r safonwyr allanol er mwyn gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol yn y ddau ddimensiwn sydd wedi eu cynnwys yn y matrics dyfarnu ac ym mhob un o'r meysydd adolygu cysylltiedig. Esbonnir y sail ar gyfer y dyfarniadau hyn yn Adran 0.6 y Llawlyfr. Bydd y trafodaethau yn defnyddio'r holl dystiolaeth o'r broses adolygu.

Bydd y cyfarfod hefyd yn cytuno ar y prif ganfyddiadau sydd i'w cyflwyno i'r awdurdod lleol o flaen yr adroddiad. Nid yw'n bosibl darparu dyfarniadau terfynol ar y cam hwn oherwydd y caiff penderfyniadau ynglŷn â dyfarniadau eu hail-asesu wedi i'r adroddiad gael ei ysgrifennu.